# Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr

## Adroddiad Blynyddol Cyntaf 2015/2016

ARIANNWYD GAN GWYNT Y MÔR • FUNDED BY GWYNT Y MÔR



- Mwy na £19 miliwn mewn 25 mlynedd
- Creu cymunedau cryf a chynaliadwy
- Creu ffyniant a thwf economaidd
- Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb

www.gwyntymorfund.cymru

innogy · SWM Stadtwerke München · Green Investment Bank · SIEMENS




Bu'n flwyddyn gyntaf eithriadol i Gymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CCGC) wrth ddatblygu a darparu Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr (GYM). Yn 2015/2016, blwyddyn lawn gyntaf y gronfa, rydym wedi gweithio â 107 o wahanol grwpiau a sefydliadau, a hyd yma mae 43 o'r rhai hynny wedi bod yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau. Rwyf mor falch o'r hyn mae'r gronfa wedi ei gyflawni yn ystod deuddeg mis cyntaf y rhaglen gyffrous ac arloesol hon.

Rydym wedi adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer dyfodol y gronfa. Mae yna brosesau ymgeisio clir a syml ar gyfer y cynlluniau grantiau mawr a bach, a rhoddir cyngor a chymorth priodol i'r ymgeiswyr. Mae gennym banel grantiau sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried ceisiadau. Mae gan aelodau'r panel gyfoeth o brofiad a gwybodaeth, ac mae hynny'n arwain at drafodaethau bywiog a phenderfyniadau cydnerth ar sail gwybodaeth.

Hoffwn ddiolch i'n holl bartneriaid: **GYM Offshore Wind Farm Ltd, Cynghorau Gwirfoddol Sir Fflint a Sir Ddinbych** ac **Undeb Credyd Cambria** sydd wedi gweithio gyda ni ar ddatblygu a lansio'r gronfa. Hefyd, mae aelodau panel a thîm CCGC wedi chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y cam datblygu a gweithredu cychwynnol hwn.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf rwyf wedi cael fy mhlesio gan nifer, ansawdd, creadigrwydd, amrywiaeth ac angerdd y ceisiadau a dderbyniwyd. Maent wedi bod y tu hwnt i'n disgwyliadau. Mae yna bobl ryfeddol yn gwneud pethau anhygoel ar hyd a lled Gogledd Cymru, gydag adnoddau cyfyngedig yn aml. Oherwydd hyblygrwydd y gronfa, nid cefnogi prosiectau cyfalaf yn unig drwy dalu am frics a sment y mae hi, ond rydym hefyd wedi gallu cefnogi rhai o'r mentrau refeniw mwy heriol all wneud gwir wahaniaeth i wead ein cymunedau.

Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf hon mae GYM wedi ymrwymo **£636,738.00** er mwyn helpu i wneud ein cymunedau yn fwy bywiog, ffyniannus a theg. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at sicrhau fod y flwyddyn gyntaf hon wedi bod yn llwyddiant ysgubol.



**Wendy Jones**
Prif Swyddog, Cefnogaeth
Gymunedol a Gwirfoddol Conwy

Llun drwy garedigrwydd Hazel Hughes Photography a Dr Zigs yn Ymuno Festival

# Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr

Agorwyd Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr oddi ar arfordir Gogledd Cymru yn swyddogol ym Mehefin 2015 fel ail fferm wynt fwyaf y byd. Mae gan y fferm wynt arloesol hon y potensial i gynhyrchu digon o ynni adnewyddadwy i bweru anghenion blynyddol cyfatebol tua 400,000 o dai maint cyfartalog y DU.


Mae'n cynrychioli buddsoddiad o fwy na £2 biliwn, a rennir ar hyn o bryd rhwng innogy SE (50%); Stadtwerke München GmbH, cwmni cyfleustodau trefol Munich (30%); UK Green Investment Bank (10%) a Siemens (10%).

# Dewch i gyfarfod â thîm Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr



### Wendy Jones, Prif Swyddog CCGC

Wrth arwain CCGC, fy rôl yw cynrychioli, hyrwyddo a gwella buddiannau'r trydydd sector ar hyd a lled Sir Conwy yn ogystal â rheoli CCGC o ddydd i ddydd. Gyda chronfa GYM, rwyf yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso sut mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni.



### Sabina Dunkling, Swyddog Datblygu CCGC

Fy swydd i gyda GYM yw cynorthwyo Neil gyda gweinyddu'r grantiau, eu paratoi ar gyfer y panel a diweddaru'r cyfryngau cymdeithasol. Rwyf hefyd yn gweithio ar ddatblygu grwpiau yn ehangach y tu hwnt i'r gronfa, ac mae hynny yn cynnwys hyfforddiant, llywodraethiant a chwilio am gyllid.



### Neil Pringle, Rheolwr Rhaglen Gwynt y Môr

Rwyf yn gweithio'n llawn amser gyda chronfa GYM gyda chymorth gweddill y tîm. Mae hynny'n cynnwys pob agwedd o weinyddu grantiau yn cynnwys cynorthwyo ein panel asesu grantiau. Rhan allweddol o fy ngwaith yn cynghori, cynorthwyo ac arwain grwpiau cymunedol arfaethedig wrth ddatblygu syniadau, prosiectau a chyflwyno ceisiadau i'r gronfa.



### David O'Neil, Rheolwr Busnes CCGC

Fy nghyfrifoldeb i mewn perthynas â'r gronfa yw prosesu taliadau grant, mantoli'r cyfrif banc a phob swyddogaeth gyfrifyddol sy'n gysylltiedig â chynllun grantiau GYM.

# Yr ardal yr ydym yn gweithio ynddi




**Mae ardal cronfa GYM yn ymestyn o Drwyn Penmaen Bach yn y Gorllewin i Lan y Don (i'r Dwyrain o Ddoc Mostyn) tua'r Dwyrain. Gan ymestyn i'r tir mor bell â Llanelwy, mae'r bwa hefyd yn cynnwys ardal ar hyd yr A548, gan derfynu tua hanner milltir o gymuned Llanfairtalhaiarn.**

Mae'r ardal yn cynnwys 43 o wardiau etholiadol gwahanol ac mae ynddi boblogaeth o tua 155,447.

Gall y rhan yma o Ogledd Cymru fod yn lle gwych i fyw ynddo - ond mae cymunedau'n dal i wynebu nifer o heriau.

**66.8%***

Nid oes gan 66.8% o'r bobl dros 16 oed yn y wardiau yma unrhyw gymwysterau ffurfiol

**33.2%***

Mae gan 33.2% o'r bobl salwch hirdymor

**15.9%***

Nid yw 15.9% o'r bobl yn economaidd weithgar

**25%***

Mae 25% o'r bobl yn economaidd weithgar

*Canran gyfartalog o'r boblogaeth yn wardiau ardal cronfa GYM

## Beth ydym wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn gyntaf

**£636,738** Arian a ymrwymwyd

**£195,598** Arian cyfatebol a sicrhawyd

Sicrhawyd arian cyfatebol gan gyllidwyr eraill yn cynnwys - Cynghorau Sir, Cynghorau Tref, Cronfa’r Loteri Fawr, Cyngor Celfyddydau, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Ymddiriedolaethau megis Sefydliad Morgan ac Ymddiriedolaeth Cemlyn Jones yn ogystal â chronfeydd cymunedol ffermydd gwynt eraill.

**107** Nifer y grwpiau y gweithiwyd â nhw

**43** Nifer y prosiectau a gefnogwyd

**21** Nifer y prosiectau a wrthodwyd

Mae’r rhesymau dros wrthod rhoi grant yn cynnwys bod prosiectau’n anghymwys; ddim yn arwain at ddigon o fudd yn ardal y gronfa, ddim yn darparu digon o werth am arian.

**39** Nifer y grantiau bach (llai na £10,000)


**4** Nifer y grantiau mawr (mwy na £10,000)

**24** Nifer y grwpiau cymunedol a gefnogwyd

**15** Nifer yr elusennau cofrestredig a gefnogwyd

**4** Nifer y mentrau cymunedol a gefnogwyd

## Y gwahaniaeth a wnawn – y grantiau rydym wedi’u rhoi a’r ardaloedd lle maent yn cael effaith




Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan

# Creu cymunedau cryf, cydlynol a chynaliadwy

## Crëwyd 1,060 o gyfleoedd gwirfoddoli
## Cefnogwyd 7 o brosiectau adeiladu ac adnoddau cymunedol gwahanol

**Mae Cronfa GYM wedi cefnogi prosiectau sy'n dod â phobl at ei gilydd, sy'n uno gwahanol genedlaethau, cymunedau ethnig a phobl o wahanol gefndiroedd cymdeithasol. Drwy gynorthwyo prosiectau sy'n cefnogi iechyd a chydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymunedau yn ardal y gronfa - rydym eisiau eu helpu i weithio tuag at gynaliadwyedd hirdymor.**

### Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan

Bu i Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan sefydlu perllan gymunedol a sicrhau arian cyfatebol gan brosiect Grow Wild. Bu i'r prosiect ddarparu profiadau bwyd gwerthfawr i wirfoddolwyr ag anawsterau dysgu sy'n cael anawsterau â phroblemau llafaredd, iaith a chyfathrebu.

**Roedd uchafbwyntiau'r prosiect yn cynnwys:**

- 22 o ddyddiau prosiect ymarferol
- Gweithio'n uniongyrchol â 124 o bobl
- Creu partneriaethau â Choleg Cambria a Phengwern a phrosiect ieuenctid "Include Us Too"
- 15 o deuluoedd wedi mynychu diwrnod plannu coed



Dangerpoint

"Gwnaeth argraff arbennig iawn, roedd y rhodwyr yn rhagorol, roeddem yn hoffi'r elfennau rhyngweithiol."

"Roedd pob ardal wedi'u cyflwyno'n dda ac yn rhyngweithiol, ac roedd hynny'n ymgysylltu â'r plant. Perthnasol iawn i fywydau presennol a sefyllfaoedd y plant."

## Dangerpoint

Bu i Dangerpoint sicrhau pecyn tair blynedd o gyllid er mwyn cefnogi ymweliadau cymorthdaledig gan ysgolion a grwpiau cymunedol. Bu i'w cronfeydd eu hunain sicrhau arian cyfatebol. Gall ymwelwyr ddysgu am ddiogelwch yn y ganolfan ymwelwyr ryngweithiol hon. Mae'n llawn hwyl, gweithgareddau adloniannol sydd hefyd yn dysgu sut mae atal damweiniau bob dydd sy'n arwain at 6,000 o farwolaethau mewn cartrefi ar draws y DU bob blwyddyn.

- Bu i 1,984 o gyfranogwyr naill ai ymweld neu drefnu ymweliad yn ystod y flwyddyn gyntaf
- Sgôr cwis cyn y daith o 38% a sgôr ar ôl y daith o 84%
- Mae 41 o fysiau  wedi cael eu darparu er mwyn goresgyn rhwystrau trafnidiaeth

## Clwb Bowlio Bryn Newydd

Erbyn hyn mae gan Glwb Bowlio Bryn Newydd 100 o aelodau sy'n chwarae mewn pum tîm. Mae cysgodfa newydd a arianwyd gan gronfa gymunedol GYM wedi dyblu eu capasiti i wylwyr, wedi ymestyn y tymor chwarae ac wedi galluogi aelodau i ymwneud yn weithgar â phobl eraill drwy gydol y flwyddyn. Roedd hon yn enghraifft ragorol o weithio mewn partneriaeth rhwng corff statudol, sef Cyngor Sir Ddinbych, a sefydliad cymunedol yn yr achos hwn.



CIC Cymunedau G2G

# Datblygu cymunedau ffyniannus a mentrus gyda thwf economaidd cryf

**Mae swyddi a chyfleoedd yn gritigol i lwyddiant hirdymor y cymunedau y mae Cronfa GYM yn gweithredu ynddynt. Drwy gefnogi prosiectau sy'n creu a chadw swyddi, yn gwella sgiliau, hyrwyddo a datblygu menter, mae'r gronfa yn cyfrannu at ffyniant hirdymor yr ardal.**

- Mae 14 o swyddi newydd wedi eu creu a 64.5 o swyddi wedi eu diogelu
- Bu i 26 o bobl ifanc gymryd rhan mewn prosiect peirianneg byw, gan ennill profiad mewn perthynas â her Menter a Chyflogadwyedd Bagloriaeth Cymru

## Digwyddiadau

Mae cronfa GYM wedi cefnogi chwe digwyddiad sydd wedi denu 74,700 o ymwelwyr i'r ardal, oedd yn cynnwys

- Salsa Amor Cymru
- Ecstrafagansa Llandudno
- Gŵyl Ymuno
- Rali Cambria
- Gŵyl Bluegrass Gogledd Cymru
- Traxz Cyffordd Llandudno



Gŵyl Bluegrass Gogledd Cymru



Salsa Amor Cymru

"Bu i Salsa Amor Cymru ddenu ymwelwyr o bob rhan o'r DU a fwciodd 150 o welyau mewn gwestai lleol yn ystod y tymor tawel, a bu i dros 300 o bobl ei mynychu. Bu iddynt sicrhau cyllid ychwanegol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Go Gogledd Cymru a pheth ariannu torfol a alluogodd i arian GYM ymestyn hyd yn oed ymhellach."

## CIC Cymunedau G2G

Bu i CIC Cymunedau G2G roi arian i gyfateb â grant GYM o'u cronfeydd eu hunain er mwyn lansio prosiect newydd sy'n helpu unigolion sydd eisiau sefydlu a datblygu eu busnesau eu hunain. Y nod yw i fusnesau dyfu a chyflogi pobl leol eraill neu gynnig cyfleoedd gwirfoddoli. Mae CIC Cymunedau G2G yn darparu cymorth, cefnogaeth, hyfforddiant a gwasanaeth gwesteio gwefannau. Mae'r prosiect hefyd yn helpu cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau newydd neu wella sgiliau presennol drwy ddarparu cymorth a chefnogaeth un i un yn seiliedig ar sgiliau 'parod am waith', hunangyflogaeth a chymwysterau. Defnyddir canolfan ddysgu G2G a chanolfan LEGO fel cyfleuster galw heibio i gyfranogwyr y prosiect.

**Hyd yma:**

- Mae 32 o bobl ifanc ac oedolion wedi derbyn hyfforddiant / cyfleoedd cyflogaeth camau nesaf
- Lansiwyd tair gwefan busnes rhithwir ac mae tair yn cael eu datblygu
- Mae gwirfoddolwyr wedi ennill cymwysterau yn cynnwys Cymorth Cyntaf Argyfwng Paediatreg lefel 3, a Hylendid Bwyd lefel 2

**Roedd yr adborth o'r cwrs yn cynnwys:**

"Cael eich gorfodi i gymryd amser i ffwrdd (o'r ymdrech o wneud y gwaith ei hun) fel bod y gwaith ei hun yn cael ei ddathlu a'i hyrwyddo. A hynny yn y pen draw yn arwain at well gwaith a busnes mwy cynaliadwy. Mae CIC Cymunedau G2G a Chronfa Gwynt y Môr wedi bod yn achubiaeth arbennig! Diolch yn fawr!"


Men's Sheds Y Rhyl

# Lleihau tlodi ac anghydraddoldebau mewn cymunedau

**Disadvantage and exclusion are the root cause of so many challenges Anfantais ac eithrio yw gwreiddiau cymaint o'r problemau mae cymunedau yn eu hwynebu. Mae'r prosiectau yr ydym yn cefnogi yn amcanu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, estyn allan i bobl ar yr ymylon a phobl sy'n agored i niwed a chynnig gobaith iddynt. Bu i rai o'n grantiau lleiaf helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol fawr i ansawdd bywyd pobl.**

## Men's Sheds Y Rhyl

Mae Men's Sheds Y Rhyl yn helpu i gefnogi dynion ag anableddau dysgu. Yn y Shed, mae 184 o aelodau a 50 sy'n mynychu'n rheolaidd yn elwa o gael lle i gyfarfod, cael pryd bwyd cynnes maethlon, teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau megis gwirfoddoli, tra'n magu hyder a dysgu sgiliau newydd yr un pryd. Mae cefnogaeth gan gronfa GYM, ynghyd ag arian cyfatebol gan Sefydliad Morgan, Cronfa'r Loteri Fawr a Comic Relief wedi helpu i adnewyddu cegin, darparu toiled i'r anabl, dolen sain a ramp mynediad. Mae'r Shed bellach yn hollol gynhwysol a hygyrch i bawb, ac mae wedi bod yn creu cysylltiadau cryf ag asiantaethau eraill yn cynnwys derbyn atgyfeiriadau oddi wrth yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol a'r Groes Goch.

**Mae sylwadau gan rai sy'n mynychu yn cynnwys:**

"Mae'n lle hwyliog i fod ynddo" "Mae'n gartref" "Mae'n rhan o fywyd, yn rhan o dyfu i fyny"

## Hope Restored

Bu I Hope Restored ddefnyddio grant bychan i sicrhau cyflenwadau ac adnoddau hanfodol ar gyfer pobl ddigartref yn Llandudno. Roedd hyn yn cynnwys:

- 2300 o brydau bwyd poeth
- 250 o barseli bwyd
- 30 o becynnau cysgu (pebyll/sachau cysgu etc.)
- 41 o bobl wedi eu tynnu oddi ar y strydoedd a'u rhoi mewn llety addas

## Cynnal Gofalwyr

Mae Cynnal Gofalwyr yn cefnogi gofalwyr anghyflogedig yng Ngogledd Cymru. Maent yn cydnabod bod sefyllfa bob gofalwr yn wahanol ac yn amcanu at sicrhau nad oes raid i neb ofalu ar ei ben ei hun. Mae grant gan gronfa GYM wedi helpu i:

- Gyflogi cydlynydd
- Cefnogi 235 o ofalwyr yn cynnwys paratoi cynlluniau i ofalwyr
- Sicrhau £54,505 o fudd-daliadau ychwanegol i ofalwyr

## Ein Cyllid 2015 / 2016

Mae gan CCGC gontract cychwynnol o 5 mlynedd i weinyddu cronfa GYM. Mae'r holl arian a ddelir yn cael ei warchod er mwyn ei ddefnyddio i fynd i'r afael â themâu'r gronfa yn ardal y gronfa. Mae ffi gweinyddu yn gynwysedig, ac mae honno yn talu am gostau gweinyddu'r gronfa, ac mae hynny'n cynnwys darparu Rheolwr Cronfa llawn amser yn ogystal â'r cymorth gweinyddol ac ariannol sydd ei angen.

**Y GRONFA**

| | |
|---|---|
| Y gronfa gymunedol a dderbyniwyd gan GYM Offshore Windfarm Ltd: | **£1,275,967.32** |
| Ffioedd gweinyddu gan GYM Offshore Windfarm Ltd: | **£93,000** |

**GRANTIAU A DDYFARNWYD**

| | |
|---|---|
| Hope Restored | **5,700.00** |
| Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan | **5,915.70** |
| Neuadd Bentref Llysfaen | **51,027.43** |
| Cadetiaid Llu Awyr Brenhinol Prestatyn | **9,999.00** |
| Salsa Amor Cymru | **9,995.00** |
| Creu Menter | **8,768.00** |
| EESW/Stem Cymru | **9,999.00** |
| Int. Yachting Fellowship Rotarians | **3,000.00** |
| Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych | **9,500.00** |
| Tai Cymru Dating | **5,000.00** |
| Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr | **9,999.00** |
| Gweithredu Cymunedol Abergele Cyf | **141,191.00** |
| Turn2Us | **5,936.00** |
| Clwb Bowlio Bryn Newydd | **2,000.00** |
| Ecstrafagansa Fictoraidd Llandudno | **3,960.00** |
| Clwb Cyfeillgarwch Gronant | **3,800.00** |
| Eglwys Saesneg y Bedyddwyr Hen Golwyn | **980.00** |
| Clwb yr Efail | **4,213.80** |
| Men's Sheds Y Rhyl | **9,440.00** |
| G2G CIC | **20,000.00** |
| Cymdeithas Reilffyrdd Llandudno a Dyffryn Conwy | **1,497.97** |
| Clwb Ceir Gogledd Cymru | **9,596.00** |
| Dangerpoint | **164,560.00** |
| Eglwys Fethodistaidd St John | **9,999.00** |
| Ysgol y Foryd, Bae Cinmel | **3,875.00** |
| Clwb Pêl-droed Llandudno | **9,999.00** |
| Menter Gerddi Botanegol Cyf | **1,687.07** |
| Book of You CIC | **7,500.00** |
| Traxz Cyffordd Llandudno | **1,500.00** |
| Grŵp Gweithredu Cymunedol Prestatyn a Melyd | **9,064.00** |
| Cyngor Tref Prestatyn - Rhandiroedd Cymunedol | **8,278.62** |
| Cymdeithas Go Green Peulwys | **2,503.00** |
| Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (PPA Cymru) | **9,585.00** |
| CAIS Ltd | **9,998.86** |
| Digwyddiadau Ymuno CIC | **9,594.20** |
| Clwb Rotari Prestatyn | **6,100.00** |
| Gwirfoddolwyr You'll Never Walk Alone | **3,000.00** |
| Gŵyl Gerddoriaeth Bluegrass Gogledd Cymru | **5,000.00** |
| Fforwm Anabledd Sir y Fflint | **4,840.00** |
| Home Start Conwy | **9,990.00** |
| Canolfan Gynghori ar Ynni Gogledd Cymru | **8,333.33** |
| Ysgol y Gogarth | **8,269.79** |
| Home Start Sir Ddinbych | **9,990.00** |
| Feed The Children | **1,554.00** |

**CYFANSWM: £636,738.77**



ARIANNWYD GAN GWYNT Y MÔR • FUNDED BY GWYNT Y MÔR

# Edrych i'r dyfodol

Nid oes unrhyw arwydd y bydd maint y diddordeb na'r galw am gymorth gan Gronfa GYM yn lleihau. Gyda chylch gwaith cynyddol yn cael ei roi ar ysgwyddau sefydliadau'r trydydd sector a'r angen i sicrhau adnoddau i sectorau amrywiol yn ein cymdeithas, rydym yn argyhoeddedig y bydd Cronfa GYM yn parhau i chwarae rôl allweddol o ran adfywio a datblygu ardal arfordirol Gogledd Cymru.

Fel cydnabyddiaeth i le amlwg Gogledd Cymru yn y diwydiant twristiaeth, mae Cronfa GYM yn falch o fod wedi cefnogi nifer o ddigwyddiadau proffil uchel, cefnogi cyflogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddol, gan gynorthwyo'r sectorau gwasanaethau a chynhyrchwyr lleol. Rydym yn disgwyl y bydd y galw yn parhau yn yr ardal hon yn y dyfodol rhagweladwy.

Mae sicrhau cyllid allanol yn gynyddol heriol, fodd bynnag mae'n rhoi sicrwydd i gymunedau bod ganddynt ffrwd cyllid hirdymor, diogel a dibynadwy. Mae arloesedd cronfa GYM hefyd yn ymestyn i feysydd newydd. Gan weithio mewn partneriaeth ag Undeb Credyd Cambria, bydd y gronfa nawr yn gallu cynnig benthyciad er mwyn helpu i gychwyn mentrau newydd, yn arbennig yn y sector mentrau cymdeithasol. Rydym yn edrych ymlaen at weld y gwasanaeth unigryw hwn yn ffynnu yn ystod y deuddeg mis nesaf.

Ers iddi gael ei chreu, mae'r gronfa wedi ymdrechu i ddefnyddio dull mwy cydgysylltiedig o ariannu ar draws Gogledd Cymru, ac mae hynny eisoes yn meithrin cysylltiadau a pherthnasoedd cryf gyda chyllidwyr eraill sy'n gweithredu yn yr ardal. Rydym yn bwriadu datblygu'r ffrwd gwaith hwn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod gan archwilio'r dulliau traddodiadol a mwy arloesol o gydweithio â phartneriaid eraill er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl i'r gymuned leol.

Pwynt gwerthu unigryw Cronfa GYM yw ei "ethos cymunedol". Mae wedi ei lleoli yn y gymuned, ar gyfer y gymuned ac yn cael ei rheoli gan y gymuned. Anogir ymgeiswyr i beidio â chyflwyno ceisiadau na ofynnwyd amdanynt. Ein prif swyddogaeth yw cefnogi grwpiau ar hyd eu taith. Mae cynnig a rennir o'r cychwyn yn debygol o fod yn gynnig sy'n cyflawni mwy, sy'n creu gwell partneriaethau, sicrhau mwy o arian cyfatebol ac effeithio mwy ar y gymuned gyfan.

Rydym yn edrych ymlaen yn ddisgwylgar at y flwyddyn nesaf, at weithio gyda grwpiau, sefydliadau ac ar syniadau hen a newydd yn ein hymdrech i greu cymunedau bywiog, ffyniannus a theg i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

I gael mwy o wybodaeth am y gronfa ac am sut i wneud cais, ewch i **www.gwyntymor.cymru**

**@GwyntYMorCF** **@gwyntymor**